



## **Band Cymru 2018 - Cyfle i ennill £10,000**

Yn dilyn llwyddiant cystadlaethau Band Cymru 2014 a 2016, mae S4C yn falch i gyhoeddi cystadleuaeth Band Cymru 2018 i fandiau chwyth, pres a jazz lle mae'r pwyslais ar gyflwyniad a rhaglen **safonol ac adloniannol**. Dyma gyfle unigryw i fandiau Cymru ddangos eu doniau disglair ar deledu.

Trefnir y gystadleuaeth gan gwmni Rondo a bydd y sesiynau cynderfynol a'r rownd derfynol yn cael eu darlledu ar S4C.

Rhaid i bob band gael isafswm o 12 offeryn chwyth/pres ac uchafswm o 5 person sydd ddim yn chwarae offerynnau chwyth/pres e.e. offerynnau taro, piano, drymiau.... Ni chaniateir mwy na 35 aelod mewn unrhyw fand.

Yn dilyn cyfres o glyweliadau sain ledled Cymru gwahoddir 12 Band i ymddangos yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth ar benwythnos **Chwefror 17eg– 18fed 2018**.

Bydd y 12 band yn derbyn gwobr o £500 yr un.

Bydd y 12 band yn cael eu rhannu i 4 sesiwn ar gyfer 4 rhaglen deledu, a bydd enillydd ar ddiwedd pob rhaglen deledu.

Ni fydd ennill sesiwn gystadleuol yn gwarantu lle yn y rownd derfynol.

Bydd panel o feirniaid rhyngwladol **yn dewis 4 band o'r penwythnos i ymddangos yn y rownd derfynol** yn Neuadd Fawr, Prifysgol Abertawe ar Sul, Ebrill 22ain 2018. Bydd y pedwar band sydd drwodd i'r rownd derfynol yn derbyn £500 ychwanegol.

Bydd **enillydd teitl Band Cymru 2018** yn derbyn gwobr bellach o £7,000.

## **Gwobr am y Cyflwyniad Gorau**

Cyflwynir gwobr ar wahân i'r cyflwyniad llwyfan gorau o ddarn unigol o'r sesiynau cystadlu neu'r rownd derfynol. Bydd enillydd y wobr yma yn derbyn gwobr bellach o £2,000.

## **Gwobr i'r Unawdydd Gorau**

Yn ystod y rowndiau cyn derfynol, bydd y beirniaid yn dewis yr unawdydd gorau a bydd cyfle i'r unawdydd yma berfformio yn y rownd derfynol. Nid oes rheidrwydd i fand gynnwys unawdydd yn ei rhaglen.

**Cynigir gwobr o £500 i'r Unawdydd gorau.**

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fandiau sy'n deillio o Gymru.

**Ni chaniateir i enillydd Band Cymru 2016 gystadlu yng nghystadleuaeth 2018.**

## **Dyddiad cau derbyn ceisiadau: 06.10.17**

Am fwy o fanylion, cysyllter â:

**Swyddfa Band Cymru 2018**

**Rondo, Llawr 9, Ty South Gate, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW**

Ffôn: **029 2022 3456**

(Cost galwad arferol, gall y gost fod yn uwch drwy ffôn symudol)

E-bost: **bandcymru@rondomedia.co.uk**

Gweler amodau llawn y gystadleuaeth:

[s4c.cymru/bandcymru](http://s4c.cymru/bandcymru)  
[rondomedia.co.uk/bandcymru](http://rondomedia.co.uk/bandcymru)

## 1. Gwrandawiaidau:

Bydd pob band yn cael ei recordio gan beiriannydd sain proffesiynol yn eu cynefin ym mis Tachwedd 2017. Gofynnir i'r bandiau baratoi rhaglen **amrywiol** ac **adloniannol** o **13 - 15 munud** o gerddoriaeth.

Ni chaniateir golygu'r perfformiad, a chaiff pob band gopi CD o'u perfformiad. Yn ddibynnol ar nifer y bandiau yn y lleoliad, mae'n bosib y bydd un set o offerynnau taro a kit drymiau yn cael eu darparu gan drefnwyr y gystadleuaeth at ddefnydd pob band. Bydd piano ar gael.

**Bwriedir recordio** yn yr ardaloedd canlynol ym mis Tachwedd 2017:

Sul	05.11.17	Caerdydd
Nos Wener	17.11.17	Yr Wyddgrug
Sadwrn	18.11.17	Bangor
Sul	19.11.17	Caerfyrddin
Nos Wener	24.11.17	Hirwaun
Sul	26.11.17	Caerdydd

**\*\*Gall yr amserlen newid yn ddibynnol ar nifer y bandiau yn y gwahanol ardaloedd\*\***

Gwrandewir ar y recordiadau gan banel o feirniaid rhyngwladol, ac fe fydd y bandiau'n cael eu hadnabod fesul rhif, ac nid enw. Y gobaith yw hysbysu pob band o ganlyniad ei gwrandawriad erbyn diwedd Rhagfyr 2017, pan wahoddir y bandiau llwyddiannus i fynd ymlaen i'r rowndiau cynderfynol. Bydd barn y panel beirniaid yn derfynol.

## 2. Rowndiau Cynderfynol Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth

Sadwrn 17.02.18

Sul 18.02.18

### Gofynnir i'r bandiau gadw'r penwythnos i gyd yn rhydd.

Gofynnir i'r bandiau berfformio rhaglen o **13- 15 munud** o gerddoriaeth **amrywiol ac adloniannol**. Mae'r cynhyrchwyr yn croesawu unrhyw drafodaeth am y cyflwyniad gweledol. Caniateir un eitem gyda unawdydd lleisiol o fewn y rhaglen, a rhaid i'r darn hwnnw gael ei ganu yn yr iaith Gymraeg. Bydd barn y panel beirniaid yn derfynol.

Ar gyfer y rowndiau cynderfynol bydd un set o offerynnau taro, piano a kit drymiau yn cael eu darparu gan drefnwyr y gystadleuaeth at ddefnydd pob band.

Erbyn **Ionawr 12fed 2018** gofynnir i'r bandiau:

- Gyflwyno rhaglen y rowndiau cynderfynol ar bapur neu trwy ebost.
- Am gopiau o'r gerddoriaeth
- Manylion am unawdwyr
- Manylion am niferoedd
- Trefn gosod y band
- Cynllun llwyfan manwl gyda phob offeryn wedi ei nodi'n glir.

Ni chaniateir newid y rhaglen ar ôl y dyddiad yma oni bai bod problem yn codi gyda chlirio hawlfraint darlledu darn arbennig. Os ydych yn defnyddio cyfieithiad sydd heb ei gyhoeddi, mae angen caniatâd ar bapur wrth y cyhoeddwyr os gwelwch yn dda ac ni fydd Rondo yn gyfrifol am dalu am yr hawl i gyfieithu'r darn. Mae gan S4C yr hawl i ofyn i fand newid y rhaglen os oes problem yn codi gyda hawlfraint darlledu.

Erbyn **Ionawr 22ain 2018** gofynnir i'r bandiau baratoi:

- **recordiad gweledol** (fideo) o'r darnau fel mae nhw'n cael eu cyflwyno ar lwyfan ar ffôn/ipad/dablet.

Mae gan S4C yr hawl i wrthod bandiau i gystadlu os nad ydynt yn cydymffurfio gyda'r amodau.

### 3. **Y Rownd Derfynol - Neuadd Fawr, Prifysgol Abertawe**

**Sul 22.04.18**

Gofynnir i'r bandiau berfformio **rhaglen amrywiol ac adloniannol o 11- 12 munud** o gerddoriaeth. Mae'r cynhyrchwyr yn croesawu unrhyw drafodaeth am y cyflwyniad gweledol. Caniateir un eitem gyda unawdydd lleisiol o fewn y rhaglen, a rhaid i'r darn hwnnw gael ei ganu yn yr iaith Gymraeg.

Rhaid i'r rhaglen fod yn wahanol i'r rownd gynderfynol. Bydd barn y panel beirniaid yn derfynol.

Ar gyfer y rownd derfynol bydd un set o offerynnau taro, piano a kit drymiau yn cael eu darparu gan drefnwyr y gystadleuaeth at ddefnydd pob band.

Erbyn **Mawrth 9fed 2018** gofynnir i'r bandiau:

- Gyflwyno rhaglen y rownd derfynol ar bapur neu trwy ebost.
- Am gopiau o'r gerddoriaeth
- Manylion am unawdwyr
- Manylion am niferoedd
- Trefn gosod y band
- Cynllun llwyfan manwl gyda phob offeryn wedi ei nodi'n glir.

Ni chaniateir newid y rhaglen ar ôl y dyddiad yma oni bai bod problem yn codi gyda chlirio hawlfraint darlledu darn arbennig. Mae gan S4C yr hawl i ofyn i fand newid y rhaglen os oes problem yn codi gyda hawlfraint darlledu. Os ydych yn defnyddio cyfieithiad sydd heb ei gyhoeddi, mae angen caniatad ar bapur wrth y cyhoeddwyr os gwelwch yn dda ac ni fydd Rondo yn gyfrifol am dalu am yr hawl i gyfieithu'r darn.

Erbyn **Mawrth 19eg 2018** gofynnir i'r bandiau baratoi:

- **recordiad gweledol** (fideo) o'r darnau fel mae nhw'n cael eu cyflwyno ar lwyfan ar ffôn/ipad/dablet.

Mae gan S4C yr hawl i wrthod bandiau i gystadlu os nad ydynt yn cydymffurfio gyda'r amodau.

Bydd Rondo yn trefnu ac yn talu am fysis i'r bandiau gyrraedd Aberystwyth/ Abertawe.

Ni fydd Rondo yn cyfrannu tuag at gost llety yn Aberystwyth/ Abertawe.

Wrth ymgeisio yn y Gystadleuaeth, mae ymgeiswyr yn rhoi'r hawl i Rondo gymryd cofnod o'u manylion cyswllt at bwrpasau gweinyddu'r Gystadleuaeth. Ni fydd Rondo yn trosglwyddo gwybodaeth bersonol ymgeiswyr i unrhyw drydydd parti nac yn defnyddio manylion personol ymgeiswyr at unrhyw bwrpas ar wahân i weinyddu'r gystadleuaeth hon a hyrwyddo cystadleuaeth debyg yn y dyfodol. Defnyddir unrhyw ddata personol sy'n ymwneud ag ymgeiswyr yn unol â deddfwriaeth diogelu data gyfredol y DU. Gweler Polisi Diogelu Data S4C [http://www.s4c.cymru/production/downloads/guidelines/c\\_polisi\\_diogeludata.pdf](http://www.s4c.cymru/production/downloads/guidelines/c_polisi_diogeludata.pdf) am ragor o wybodaeth. Caiff data sy'n ymwneud ag ymgeiswyr ei gadw gan Rondo am gyfnod rhesymol wedi'r Gystadleuaeth i gynorthwyo Rondo/S4C i ddelio ag unrhyw ymholiadau.